**Gweithdrefn ar gyfer newid enw plentyn wrth fabwysiadu.**

Mae adolygiad o Orchmynion Mabwysiadu i blant o fewn un rhanbarth yng Nghymru dros gyfnod o 5 mlynedd wedi dangos ar gyfartaledd, bod **53%** o blant wedi cael newid enw cyntaf wrth gael eu gosod gyda mabwysiadwyr. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ac er ei fod yn cynnwys yr hyn y gellir ei ystyried yn fân newidiadau (e.e., sillafiad arall, tynnu rhan â chysylltnod o'r enw) mae llawer o blant sydd wedi cael newid enw mwy sylweddol. Mewn unrhyw achos, ni ddylid tanbrisio arwyddocâd yr enw a roddwyd iddo gan ei deulu biolegol i blentyn a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw newid.

Adolygwyd y cyd-destun cyfreithiol sy'n ailadrodd yr angen i blentyn gael ei adnabod wrth ei enw biolegol hyd nes y gwneir Gorchymyn Mabwysiadu ac y dylid blaenoriaethu egwyddor hunaniaeth y plentyn oni bai bod angen newid enw mewn amgylchiadau lle mae hynny'n angenrheidiol i'w les. Mae'r dystiolaeth ymchwil yn gyfyngedig ond mae'n adlewyrchu'r materion posibl sy'n ymwneud â hunaniaeth, colled a'r risg y bydd enwau'n cael eu newid oherwydd dymuniadau mabwysiadwyr yn hytrach nag anghenion plentyn. Mae astudiaeth newydd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a allai lywio'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach.

Roedd yn amlwg bod yr arfer o ran newid enwau ar draws awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ac yn amrywio rhwng gweithwyr unigol. Er bod rhai gweithwyr yn glir ynghylch yr amgylchiadau y dylid newid enw ac sy'n glir wrth fynd â hyn at y rheolwyr i gael penderfyniad, bu sawl enghraifft lle mae newidiadau i enw wedi cael eu cytuno gan weithiwr cymdeithasol plentyn yn ystod ymweliad â mabwysiadwyr ac unwaith y bydd hyn ym meddyliau mabwysiadwyr, mae'n anodd iawn gwrthdroi hynny. Yr adborth yw efallai ein bod wedi dod yn fwy hunanfodlon wrth dderbyn y penderfyniadau hyn a'r rhesymeg drostynt. Ail-bwysleisiodd dysgu o gymorth ôl-fabwysiadu y goblygiadau hirdymor i blant, oedolion mabwysiedig a pherthnasau biolegol pan fydd newid enwau'n digwydd.

Mae gwybodaeth gynnar a roddir i fabwysiadwyr yn ogystal â hyfforddiant paratoi a'r broses asesu i gyd yn pwysleisio mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd enwau plant yn cael eu newid, ond yr adborth a gafwyd yw os rhoddir unrhyw arwydd bod newid enw'n bosibl, bydd llawer o fabwysiadwyr yn bachu ar y syniad hwn yn gyflym. Mae enghreifftiau lle mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn wedi gofyn iddynt beth yw eu barn am yr enw ac a ydynt am ei newid ac adegau pan mae newidiadau i enw wedi cael eu hargymell yn uniongyrchol gan weithiwr cymdeithasol neu reolwr y plentyn. Yn aml, nid yw'r trafodaethau hyn wedi digwydd ar y cyd â'r tîm mabwysiadu ymlaen llaw i

ystyried y risgiau a sut arall y gellir eu rheoli. Gyda symud graddol tuag at fod yn fwy agored o fewn mabwysiadu hefyd, mae'r angen i ddiogelu hunaniaeth y plentyn trwy newid enw yn lleihau.

Rydym yn cynnig proses fwy cadarn sy'n adlewyrchu arwyddocâd gydol oes newid enw plentyn. Mae hyn yn cynnwys cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad sy'n seiliedig ar farn pob parti ac sy'n cael ei wneud gan rywun o fewn yr ALI sydd â chyfrifoldeb rhiant dirprwyedig. Rydym yn argymell, o ystyried arwyddocâd newid enw plentyn yn barhaol, y dylai hyn gael ei wneud gan yr un lefel ddirprwyo â gweithdrefnau iechyd difrifol yn yr ALI, fel yr amlinellir yn y weithdrefn isod.
Mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu ymwybyddiaeth o heriau newid enw ac yn ailadrodd i fabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai hyn ddigwydd, ac felly nid ydym yn rhagweld y bydd ceisiadau i newid enwau yn parhau ar yr un lefel uchel ag y gwelir ar hyn o bryd.

**Gweithdrefn ar gyfer newid enw plentyn**

1. **Cyflwyniad**

Mae'r weithdrefn hon yn roi manylion y cyd-destun cyfreithiol, ystyriaethau gwerthoedd ac ymarfer yn ymwneud â newidiadau i enwau ar gyfer plant sy'n cael eu rhoi i'w mabwysiadu yng Nghymru. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol mabwysiadu rhanbarthol a'r AMG, timau gofal plant awdurdodau lleol, darpar fabwysiadwyr, gofalwyr maeth, timau maethu, swyddogion adolygu annibynnol, aelodau'r panel mabwysiadu a gwasanaethau cyfreithiol. Ni ddylai ymarferwyr a gofalwyr, o dan unrhyw amgylchiadau, gytuno, cymeradwyo na gweithredu mewn unrhyw ffordd i newid enw plentyn heb ddilyn y weithdrefn hon.

2. **Cyd-destun cyfreithiol a gwerthoedd**

Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol canlynol yn sail i'r polisi hwn:

- Erthygl 7 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Adran 28 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

<u>Egwyddorion Allweddol:</u>

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael enw/eu henw, ac mae hyn wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n nodi:

"*Rhaid i'r plentyn gael ei gofrestru yn union ar ôl ei eni a bydd ganddo hawl o ddyddiad ei eni i gael enw, hawl i gael cenedligrwydd a chyn belled ag y bo modd, hawl i adnabod ei rieni a chael gofal ganddynt*." (Erthygl 7)

Mae Adran 28 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn nodi, er bod plentyn yn destun Gorchymyn Lleoli, na ddylid newid enw plentyn: *"... oni bai bod y llys yn rhoi caniatâd, neu fod pob rhiant neu warcheidwad yn rhoi caniatâd ysgrifenedig."*

Mae cydnabyddiaeth plentyn o'i enw yn dibynnu ar ei oedran a'i gyfnod datblygu. Fodd bynnag, mae hefyd yn gynhenid gysylltiedig â'u gwreiddiau a'u hymdeimlad o hunaniaeth. Bydd yn arwyddocaol iddyn nhw wrth iddynt dyfu'n hŷn ac fel oedolion mabwysiedig. Gellir dadlau bod cynnal enw'r plentyn yn cydnabod derbyniad a chydnabyddiaeth gadarnhaol a pharch at hanes y plentyn yn y gorffennol ac yn rhoi parhad i'r plentyn. Gall newid enw plentyn arwain at oblygiadau gydol oes ac mae yn ei hanfod yn gysylltiedig â threfniadau cyswllt parhaus, gwaith taith bywyd ac ymdeimlad o hunaniaeth.

Mae'r Awdurdod Lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda rhieni biolegol cyn Gorchymyn Mabwysiadu a gall gyfyngu ar Gyfrifoldeb Rhiant (gan gynnwys yr hawl i enwi'r plentyn) ond dim ond *"os oes angen gwneud hynny er mwyn diogelu neu hyrwyddo lles plentyn"*. (Deddf Plant 1989.)

<u>Cyfraith Achosion Perthnasol</u>:

Yn y Llys Apêl Parthed D, L ac LA (newid enw cyntaf) 2003, dywedodd Butler-Sloss:

"*Mae newid enw plentyn yn cymryd cam sylweddol ym mywyd plentyn.* Enw cyntaf neu gyfenw, mae'n ymddangos i mi, bod yr egwyddorion yr un fath, yn gyffredinol. Mae gan blentyn wreiddiau. Mae gan blentyn enwau a roddwyd iddo ef neu hi gan rieni. Mae gan y plentyn hawl i'r enwau hynny ac mae'n cadw'r hawl honno, fel yn wir y mae gan y rhieni hawliau i gadw enw'r plentyn a ddewiswyd ganddynt. Ni ddylid rhoi'r hawliau hyn i'r naill ochr, ac eithrio am resymau da.".

Ystyriodd Butler–Sloss hawliau mabwysiadwyr i newid enw plentyn a roddwyd yn eu gofal at ddiben mabwysiadu. Daeth y dyfarniad i'r casgliad yn gadarn na ddylai mabwysiadwyr newid enw'r plentyn cyn i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei roi. Rhoddwyd pwyslais ar flaenoriaeth yr "egwyddor hunaniaeth" oni bai mewn amgylchiadau eithriadol lle gellir cyfiawnhau'r "egwyddor lles," hynny yw ei fod yn angenrheidiol i les y plentyn ac yn y pen draw ei ddiogelwch.

Yn y Llys Apêl, Parthed C (plant) 2016, dywedodd Lady Justice King:

*"Os na all rhieni fagu eu babi, yn aml yr enw cyntaf a roddwyd iddo neu iddi gan eu mam yw'r unig rodd barhaol sydd ganddynt oddi wrthi. Efallai mai dyma'r weithred gyntaf a'r unig weithred o gyfrifoldeb rhiant gan ei fam neu ei mam. Mae'n debygol, felly, o fod o werth anfeidrol i'r plentyn hwnnw fel rhan o'i hunaniaeth ef neu hi. Mae hynny'n parhau'n wir, hyd yn oed os yw'r enw a ddefnyddir yn ei deulu neu ei theulu newydd ac wedi hynny drwy gydol eu bywydau, yn wahanol i'r hyn a roddwyd iddo ef neu hi gan eu mam fiolegol".*

**Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cefnogi'r ddau safbwynt yma o safbwynt cyfreithiol ac arfer gorau.**

Gorchymyn Mabwysiadu (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Adran 46):

Mae'n arferol i'r plentyn gymryd cyfenw ei rieni mabwysiadol pan wneir y Gorchymyn Mabwysiadu, ond ni chefnogir unrhyw newid i enw cyntaf y plentyn oni fodlonir yr amgylchiadau a nodir yn y weithdrefn hon.

**Rhaid hysbysu'r darpar fabwysiadwyr a rhaid iddynt ddeall y gofyniad cyfreithiol i blentyn gael ei gofrestru gydag asiantaethau fel meddyg teulu a'r ysgol yn ei enw genedigol (enw cyntaf a chyfenw) cyn y Gorchymyn Mabwysiadu.**

Wrth wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu, gofynnir i ddarpar fabwysiadwyr nodi'r enw y bydd gan eu plentyn yn dilyn mabwysiadu. Er ei bod yn bosibl i fabwysiadwyr ddewis enw o'u dewis, rhaid iddynt gofio efallai na fydd yr awdurdod lleol yn cytuno â'r cais os bydd newid enw'n cael ei gynnig nad yw wedi cael ei gytuno yn flaenorol. Cydnabyddir y gall enw plentyn gael ei newid yn gyfreithiol gan y mabwysiadwyr ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu trwy weithred newid enw ond byddai mabwysiadwyr yn cael eu cynghori'n gryf i beidio â gwneud hynny a gofynnir iddynt ystyried pwysigrwydd cadw enw eu plentyn.

## 3. Ystyriaethau Ymarfer

**Ni ddylid newid enw'r plentyn cyn gwneud Gorchymyn Mabwysiadu oni bai bod pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant wedi cydsynio i hyn.** Fel arfer mae enwau cyntaf y plentyn wedi cael eu rhoi gan eu rhieni biolegol ac felly mae'n rhan bwysig o'u hunaniaeth gydag arwyddocâd emosiynol enfawr. Dylid ystyried hyn ac ni ddylai unrhyw newidiadau i enw'r plentyn danbrisio difrifoldeb gydol oes unrhyw newidiadau.

Dylai gwybodaeth gynnar, hyfforddiant paratoi a'r broses asesu mabwysiadu gynnwys archwilio'r rhesymau dros, a phwysigrwydd cadw enw(au) y plentyn a disgwyliad clir na fydd mabwysiadwyr yn newid enw cyntaf plentyn. Dylid ystyried enw'r plentyn mor arwyddocaol ag agweddau eraill ar ei anghenion wrth ystyried a yw darpar fabwysiadwyr yn bariad addas. Efallai na fydd paru'n parhau os nad yw'r darpar fabwysiadwyr yn teimlo eu bod yn gallu cefnogi anghenion hunaniaeth y plentyn wrth gadw ei enw.

Mae'n bwysig bod enw'r plentyn yn cael ei **wirio yn erbyn eu tystysgrif geni** i sicrhau cywirdeb yr enw llawn a'r sillafiad ac i hyn gael ei wirio fesul cam wrth drosglwyddo achosion rhwng timau er mwyn osgoi gwallau a chamgymeriadau. Bydd y disgwyliadau o gadw enw cyntaf plentyn yn cynnwys cadw'r sillafiad gwreiddiol a chadw'r ddwy ran o enw cyntaf â chysylltnod.

Bydd eithriadau bob amser ac yn yr amgylchiadau hynny dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r materion gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw. Y rhesymau eithriadol i'r asiantaeth ystyried newid enw yw:

- Sicrhau diogelwch ac amddiffyniad parhaus y plentyn mewn sefyllfaoedd hynod o beryglus. Dyma lle gallai'r teulu biolegol ddefnyddio hwn i ddod o hyd iddyn nhw yn eu teulu mabwysiadol a lle byddai hyn yn cyflwyno risg nodedig. Byddai angen ystyried unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y teulu biolegol yn chwilio'r plentyn neu fod bygythiad o amharu neu ymddygiad ymosodol. Rhaid ystyried camau eraill y gall y teulu mabwysiadol eu cymryd i ddiogelu cyfrinachedd y plentyn heb newid enw cyntaf y plentyn hefyd.

- Mae'r enw yn fwy adnabyddadwy oherwydd ei sillafiad anhraddodiadol, fyddai'n cynyddu risg hysbys fel yr amlinellir uchod. Yn yr achosion hyn, gellir newid yr enw i'r sillafiad mwy traddodiadol.
- Mewn amgylchiadau lle mae'r risgiau a nodwyd yn ymwneud â'r plentyn yn cael ei leoli yn yr ardal ddaearyddol leol a nhw yw'r unig ddarpar fabwysiadwyr sy'n gallu mabwysiadu'r plentyn. Dylai'r rhesymau pam mai'r lleoliad hwn yw'r unig leoliad addas gael eu hamlinellu yn y ddogfen baru, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth y byddai peidio â pharhau yn achosi oedi sylweddol wrth sicrhau sefydlogrwydd i'r plentyn.
- Lle mae gan yr aelwyd fabwysiadu blentyn sydd eisoes gartref gyda'r un enw a nhw yw'r unig ddarpar fabwysiadwyr sy'n gallu mabwysiadu'r plentyn. Rhaid nodi'r rhesymau dros hyn yn y ddogfen baru.
- Os yw'r enw a roddir yn achosi gwawd neu niwed emosiynol posibl.
- Am resymau diwylliannol neu grefyddol y plentyn lle byddai'r newid enw'n integreiddio'r plentyn o fewn y teulu a'r gymuned ehangach.
- Yn dibynnu ar oed y plentyn, dymuniadau a theimladau'r plentyn pan fo cais uniongyrchol wedi'i wneud gan y plentyn i newid ei enw.

Ni roddir cymorth i newid enw plentyn dros ddwy oed oni bai y gellir dangos risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r enw.

<u>Babi a ildiwyd:</u>
Mewn amgylchiadau lle mae plentyn wedi cael ei ildio, ni chytunir ar newid enw o hyd oni bai bod unrhyw un o'r rhesymau a amlinellir uchod yn berthnasol. Pan fo plentyn wedi cael ei enwi gan rywun heblaw ei riant biolegol, mae hyn yn dal i fod yn rhan bwysig o'i hunaniaeth ac yn aml mae rhesymau clir wedi'u rhoi dros ddewis o enw a allai fod yn gysylltiedig â'i deulu biolegol neu hanes cynnar. Bydd hefyd yn un y bydd y plentyn wedi cael ei alw yn ystod y cyfnod cyn ei roi i gael ei fabwysiadu.

<u>Gofalwyr Maeth:</u>
Bydd gofalwyr maeth yn cyfeirio at y plentyn yn ôl eu henw penodol ac yn osgoi defnyddio 'llysenwau' yn lle hynny. Mae hyn yn bwysig os yw'r plentyn yn dychwelyd i’r teulu biolegol neu os yw'n mynd ymlaen i gael cynllun mabwysiadu. Gall y gofalwr maeth alw’r plentyn yn enw gwahanol os oes cytundeb wedi'i roi yn unol â'r rhesymau a amlinellir uchod, gan gynnwys pan gytunwyd ar newid enw cyn trosglwyddo i fabwysiadu.

## 4. Y Broses o Wneud Penderfyniadau

**Ni ellir cytuno ar newid enw gan weithiwr cymdeithasol plentyn nac yn anffurfiol rhwng unrhyw bartïon** ac mae'n rhaid dilyn y broses ganlynol.

Lle mae risgiau sylweddol wedi'u nodi mewn perthynas â pherthnasau biolegol sy'n ceisio dod o hyd i'r plentyn, neu lle mae'r enw a roddwyd yn achosi gwawd neu niwed emosiynol posibl **dylid codi'r cynnig i newid enw'r plentyn yn ystod y cam penderfynu 'Dylid ei Fabwysiadu'** a gall Penderfynwr yr Asiantaeth (Fabwysiadu) roi barn ragarweiniol ar yr angen i newid enw.

Rhaid ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â newid enw'r plentyn yn y Cyfarfod Paru hefyd. Bydd angen i newidiadau arfaethedig i enwau na ystyriwyd yn wreiddiol yn ystod y cam 'Dylid ei Fabwysiadu' amlinellu'r rhesymeg ynghylch pam y cynigir newid enw ar adeg y Paru.

Lle cynigir newid enw, dylid cyflwyno cais ffurfiol i newid enw'r plentyn i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dirprwyedig o fewn awdurdod lleol y plentyn gan ddefnyddio'r ffurflen gais. **(Atodiad 1)**.

Yn unol â chyfrifoldeb rhiant dirprwyedig dros benderfyniadau meddygol sylweddol, yn y rhanbarth byddai'r rôl honno'n cael ei dirprwyo i:
*[Rhowch restr o Awdurdodau Lleol a theitlau personau ag awdurdod dirprwyedig].*

Rhaid ystyried yr effaith ar y plentyn yn llawn, gan gynnwys natur gydol oes mabwysiadu, a dylid archwilio'n llawn y rhesymau a'r cymhelliant dros geisio newid enw'r plentyn. Dylai'r cais gynnwys barn gweithiwr cymdeithasol y plentyn, darpar fabwysiadwyr a'r asiantaeth fabwysiadu. Gellir rhoi sylwebaeth hefyd ar farn perthnasau biolegol a gofalwyr maeth er nad oes angen ymgynghori â nhw yn ffurfiol yn y broses hon.

Dylai'r ffurflen ar ôl iddi gael ei chwblhau gael ei hanfon gan weithiwr cymdeithasol y plentyn at y penderfynwr perthnasol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, dylid cadw'r ffurflen gais wedi'i llofnodi ar ffeil electronig y plentyn a'i chynnwys gyda'r gwaith papur cyfatebol a'i chyflwyno i'r Panel. **Lle cynigir newid enw, ni ddylai'r paru fynd ymlaen i'r Panel heb y penderfyniad hwn wedi'i lofnodi.**

Dylid mynd i'r afael yn benodol â mater enw'r plentyn yn y Panel Mabwysiadu gan ystyried argymhelliad lleoliad ar gyfer mabwysiadu. Pan fo cytundeb mewn egwyddor i newid enw'r plentyn, gall y Panel Mabwysiadu ystyried hyn wrth wneud ei argymhelliad.

Ni ellir dechrau defnyddio newid enw y cytunwyd arno tan ar ôl cytuno ar y paru. Bydd yn ddefnyddiol i'r plentyn yn ystod y cyfnod pontio os yw'r enw newydd yn un y mae wedi arfer ag ef fel ail enw neu os yw'n swnio'n debyg i'r enw y mae'n ei adnabod ei hun. Mae angen ystyried a chynllunio'n ofalus wrth benderfynu sut a phryd y bydd enw newydd y plentyn yn cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio - yn enwedig gan y bydd cyfnodau pontio a cholledion eraill yn gweithredu ochr yn ochr â hyn. Dylid rhoi

amser i ofalwyr maeth cyn y cyfnod pontio i ddod yn gyfarwydd ag enw newydd a dechrau ei ddefnyddio ar eu haelwyd.

Mewn amgylchiadau prin, gellir nodi risg newydd ar ôl rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu a allai olygu bod ystyried newid enw yn angenrheidiol. Yn yr amgylchiadau hynny, dylid dilyn yr un broses gwneud penderfyniadau.

## 5. Ystyriaethau ychwanegol:

**Dylid cadw'r cofnod wedi ei lofnodi o'r penderfyniad ynghylch newid enw ar ffeil y plentyn** ochr yn ochr â dogfennau allweddol eraill fel ei fod yn hygyrch yn y dyfodol pe bai'r person mabwysiedig yn dymuno gweld ei gofnodion.

Cydnabyddir, i fabwysiadwyr, y gall gwneud enwau eu helpu i hawlio plentyn a chynyddu eu hymdeimlad o berthyn yn y teulu mabwysiadol a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â blaenoriaethu anghenion hunaniaeth y plentyn sydd, yn y pen draw, yn gorfod cael blaenoriaeth dros ddymuniadau personol mabwysiadwyr oni bai bod angen lles clir. Yn aml, anogir mabwysiadwyr i ychwanegu enw canol o'u dewis fel eu rhan nhw yn y broses enwi ar gyfer y plentyn a bydd y plentyn hefyd yn cymryd eu cyfenw wrth gael ei fabwysiadu.

Gall fod gan blant enw canol neu enwau canol lluosog a roddir gan y teulu biolegol a dylid ystyried arwyddocâd pob enw wrth benderfynu a ddylid eu cadw ar ôl mabwysiadu. Yn aml gall rhieni biolegol fod wedi rhoi rhesymau neu arwyddocâd dros y dewisiadau o enw a dylid cydnabod y rhain ni waeth a yw'r enw'n cael ei gadw ai peidio.

Mae **Atodiad 2** yn amlinellu'r ystyriaethau y dylid eu rhoi gan ddarpar fabwysiadwyr a phartïon eraill i oblygiadau hirdymor newid enw. Dylid cynnwys hyn yn y cam paratoi ar gyfer darpar fabwysiadwyr.

## Atodiad 1: Cais i newid enw plentyn

| | |
|---|---|
| 1. Enw llawn y plentyn | |
| 2. Dyddiad geni | |
| 3. Enw arfaethedig *(yn llawn lle bynnag y bo'n bosibl)* | |
| 4. Rheswm dros y newid arfaethedig | Dewiswch eitem.<br><br>Amlinellwch y risgiau a'r rhesymau a nodwyd dros y newid arfaethedig ac a ystyriwyd mesurau diogelu/trefniadau eraill: |
| 5. Unrhyw drafodaeth berthnasol o'r cofnod penderfyniad 'Dylid ei Fabwysiadu' | |
| 6. Barn Gweithiwr Cymdeithasol a Rheolwr y Plentyn | |
| 7. Barn y Tîm Mabwysiadu | |
| 8. Barn Darpar Fabwysiadwr(wyr) | |
| 9. Barn hysbys y teulu biolegol mewn perthynas ag enw presennol y plentyn | |
| 10. Barn y Gofalwr Maeth | |
| 11. Cynigion ar gyfer rheoli'r newid i'r plentyn, gan gynnwys:<br>○ Gwaith Taith Bywyd<br>○ Gwaith Pontio | |
| Dyddiad cyflwyno | |
| Dynodi Penderfynwr (Rheolwr Tîm, Rheolwr Gweithredol ac ati) | |
| Penderfyniad | Dewiswch eitem. |
| Sylwadau'r Penderfynwr: | |
| Dyddiad y penderfyniad | |

**Atodiad 2: Newid enwau, edrych ymlaen.**

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn glir mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid newid enw cyntaf plentyn. Mae'n rhan gynhenid o'i hunaniaeth ac oni bai bod risgiau clir a nodwyd, dylid ei gadw.

Os oes angen cynnig newid enw, mae angen ystyriaeth ofalus ar hyn a bydd angen i benderfynwr o fewn yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant gytuno arno. Rhaid i ran o'r broses benderfynu hon ystyried natur gydol oes mabwysiadu ac felly'r goblygiadau hirdymor i blentyn a'i deulu o newid i'w enw.

Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys:

- Yn ystod cam y Gorchymyn cyn Mabwysiadu (ar ôl i blentyn gael ei roi i'w fabwysiadu, ond cyn i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei wneud) rhaid i'r plentyn gael ei adnabod yn ôl ei enw genedigol yn gyfreithiol a'i gofrestru gydag asiantaethau fel meddyg teulu, ysgol ac ati o dan yr enw hwn hyd yn oed os yw'n cael ei alw gan enw arall o ddydd i ddydd. Unwaith y bu newid enw cyfreithiol yn y Gorchymyn Mabwysiadu nid yw'r broses o newid enwau sydd wedi'u cofrestru gydag asiantaethau yn digwydd yn syth chwaith.
- Yn ystod y cyfnod pontio rhwng genedigaeth ac enw newydd, gall fod dryswch i'r plentyn, ac efallai y bydd angen dal i ddefnyddio ei enw genedigol ar adegau yn ystod y broses hon. Gallai hynny olygu y gall aelodau o'r teulu a ffrindiau fod yn ymwybodol o enw genedigol y plentyn yn ogystal â'i enw newydd a bydd angen arweiniad gan fabwysiadwyr ar gynnal cyfrinachedd os yw'r enw wedi cael ei newid am resymau diogelwch, yn ogystal ag arweiniad ar reoli rhannu gwybodaeth gyda'r plentyn.
- Fel arfer, bydd cyswllt blwch llythyrau'n dechrau cyn y Gorchymyn Mabwysiadu ac o'r cychwyn cyntaf bydd mabwysiadwyr yn cyfathrebu gan ddefnyddio enw genedigol y plentyn ar gyfer pob gohebiaeth ac mae hyn yn parhau trwy gydol eu plentyndod.
- Gall cynnwys y plentyn mewn cyswllt blwch llythyrau ddod yn fwy heriol lle mae newid enw. Mae plant mabwysiedig wedi dweud ei bod hi'n anodd gwybod sut i lofnodi cyswllt blwch llythyrau a chael cyfathrebiadau pwysig â nhw gan eu teulu biolegol wedi'u cyfeirio at enw nad ydyn nhw'n galw eu hunain.
- Gall perthynas â brodyr a chwiorydd biolegol a chyswllt parhaus fod yn fwy heriol lle mae newid enwau wedi digwydd. Naill ai mae hyn yn creu cyfrinachedd rhwng brodyr a chwiorydd biolegol o beidio â rhannu enw newydd y plentyn, neu mae'n rhaid i frodyr a chwiorydd addasu i'w hadnabod wrth enw newydd. Lle gall fod cyswllt anuniongyrchol neu uniongyrchol parhaus rhwng brodyr a chwiorydd a pherthnasau biolegol eraill, efallai na fydd newid enw bob amser yn diogelu hunaniaeth y plentyn os yw brodyr a chwiorydd yn ymwybodol o'r newid.

- Yn y tymor hwy mae llawer o blant mabwysiedig yn mynd ymlaen i ofyn am wybodaeth am eu teulu biolegol ac o bosibl yn cael cyswllt â nhw fel oedolion. Lle mae newid enw wedi digwydd, gall hyn greu anawsterau i'r oedolyn mabwysiedig nad yw'n uniaethu â'i hen enw ac i'r perthnasau biolegol sydd wedi cadw'r plentyn mewn cof o dan ei enw biolegol ers amser hir. Gall hyn ychwanegu heriau pellach i broses sydd eisoes yn emosiynol a chymhleth i bawb dan sylw.
- Yn aml, gellir newid enwau oherwydd risgiau ymddangosiadol i sefydlogrwydd a diogelwch lleoliad ac mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu nodi fel un o'r ffactorau risg hyn. Fodd bynnag, er y gall y risg ymddangosiadol fod gan berthnasau biolegol yn chwilio am y plentyn ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, mae pobl ifanc wedi defnyddio eu gwybodaeth am enwau teulu biolegol eu hunain i chwilio am gyswllt ac nid yw newid enw'r plentyn yn lleihau'r risg honno.
- Trwy gydol plentyndod y plentyn a'r daith i fod yn oedolyn, bydd ei ddealltwriaeth o'i daith bywyd a'i hunaniaeth yn cael ei heffeithio drwy wneud synnwyr o gael dau enw. Gall fod dryswch rhwng cael dau hunaniaeth a pherthyn i ddau fyd gwahanol a gall plant ddioddef colli rhan o'u hunaniaeth wreiddiol nad chawsant gyfle i gael dewis yn ei gylch. Mae plant mabwysiedig yn profi llawer o golledion a gall newid enw ychwanegu cymhlethdod pellach yn ogystal â'r anawsterau na ellir eu hosgoi sy'n codi trwy eu taith fabwysiadu.
- Yn aml mae mabwysiadwyr eisiau dewis enw ar gyfer y plentyn sy'n helpu i'w hawlio o fewn y teulu mabwysiadol, ond wrth wneud hynny gallant eu hamddifadu o ran o'u hetifeddiaeth enedigol, yn enwedig os mai eu henw yw un o'r unig gysylltiadau parhaol prin sydd ganddynt â'u teulu biolegol. Yn union fel y gall mabwysiadwyr fod eisiau dewis enw sy'n arwyddocaol i'w teulu, mae gan lawer o blant enwau a roddwyd iddynt sy'n arwyddocaol i'w teulu biolegol nhw. Weithiau nid oes cyfle bob amser i ailgysylltu ag aelodau o'r teulu biolegol yn y dyfodol a gall colli enw sy'n arwyddocaol i'w teulu biolegol waethygu eu hymdeimlad o golli cysylltiad ymhellach. Gall ffyrdd eraill o fabwysiadwyr yn hawlio'r plentyn trwy enwi gynnwys dewis enw canol.
- Yn bwysig iawn, bydd yn rhaid i fabwysiadwyr ateb cwestiynau'r plentyn yn ystod eu plentyndod a phan fyddant yn oedolion ynghylch pam roedd angen newid enw (neu newid sillafiad yr enw) a sut cafodd eu henw newydd ei ddewis. Bydd angen i fabwysiadwyr feddwl am yr esboniad y byddant yn ei roi ac a oedd hwn yn fater o ddewis personol neu'n gysylltiedig â risg bendant. Efallai y bydd plant mabwysiedig yn dymuno gwybod pe byddent wedi cael eu mabwysiadu gan deulu arall a fyddai angen wedi bod o hyd i newid eu henw, efallai y byddant hefyd eisiau gwybod beth yw barn eu mabwysiadwyr am eu henw genedigol. Gallai newid enw genedigol oherwydd dewis personol gael ei ystyried gan y plentyn fel gwrthod rhan ohonynt fel person. Efallai na fyddant chwaith yn cytuno â'ch rhesymau ac yn ceisio defnyddio eu henw genedigol yn y dyfodol.

Yn y pen draw, mae yna lawer o ffactorau y mae'n rhaid eu pwyso a'u mesur ar gyfer plentyn wrth ystyried newid enw, yn enwedig pan fydd yn rhy ifanc i gyfrannu at y penderfyniadau hynny. Er bod creu a hawlio teulu uniongyrchol yn bwysig yn eu teulu mabwysiadol, ni ddylid tanbrisio goblygiadau hirdymor a gydol oes creu hunaniaeth newydd drwy newid enw.